

Stori Debbie ac Elaine

Tîm Anabledd Dysgu Cymunedol

Geiriau allweddol:

Llesiant

Atal

Straeon pwy?

Elaine sy'n weithwraig gymdeithasol gyda'r tîm anabledd dysgu cymunedol.

Debbie, menyw a gyfeiriwyd at y tîm gan ei brawd.

Beth oedd y sefyllfa?

Dechreuodd pethau ar ôl i frawd Debbie ei hatgyfeirio atom, gan ei fod yn poeni ar ôl i Debbie stopio derbyn budd-daliadau ac wrth i amgylchedd ei chartref ddirywio'n sylweddol. Roedd yn poeni bod ei hiechyd a'i llesiant yn dioddef, a doedd e ddim yn siŵr sut i'w helpu hi.

Beth oedd yn bwysig i Debbie?

Amgylchedd y cartref a'r ffaith bod ei hincwm budd-daliadau wedi'i atal oedd yn poeni teulu Debbie i ddechrau. Er bod Debbie yn poeni am hyn, wrth drafod y peth gyda Debbie yn unigol wedyn, daeth i'r amlwg mai ei phrif bryder hi oedd bod ar ei phen ei hun, y ffaith nad oedd ganddi unrhyw weithgareddau ystyrlon, a'r unigrwydd llethol. Teimlai bod ei bywyd wedi mynd allan o reolaeth, a doedd e ddim yn gwybod sut i wella pethau.

Beth ddigwyddodd?

Cytunodd brawd Debbie i gydweithio â hi ar gynllun i wella amgylchedd ei chartref.

Cafodd brawd Debbie fanylion cyswllt y Ganolfan i Ofalwyr er mwyn cael cyngor a chymorth ar fudd-daliadau. Trwy hyn, aethon nhw ati i lunio apêl a chefnogaeth i Debbie gael ei budd-daliadau yn ôl.

Treuliais amser yn dod i wybod beth oedd Debbie eisiau newid yn ei bywyd. Fe'i hatgyfeiriais at gyfeillachwr a'i helpu i fynd i ganolfan gymunedol er mwyn rhoi cynnig ar wneud gemwaith. Yna roedd Debbie yn teimlo'n hyderus i fynychu'r ganolfan heb fy nghymorth i. Ers hynny, mae wedi ymuno â sawl grŵp ac yn cynorthwyo'r rhai llai abl na hi. Mae'n teimlo bod ganddi ymdeimlad o bwrpas bellach, ac yn cael ei gwerthfawrogi.

Fe wnes i barhau i gadw mewn cysylltiad â Debbie a'i theulu yn ystod y camau gweithredu hyn er mwyn helpu i feithrin perthynas â nhw a phennu'r hyn oedd yn bwysig i bawb.

Sut mae hyn yn gysylltiedig â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant?

Cwblhawyd datganiad o gymesuredd. Cafodd Debbie gymorth i gael gafael ar wasanaethau cymunedol fel canolfan STARS a'r Ganolfan i Ofalwyr er mwyn cael help i ateb ei gofynion ar ôl gweld beth oedd yn bwysig iddi. Cafodd Debbie help i gynnal ei hannibyniaeth ac i wneud dewisiadau. Cynhaliwyd y gwaith mewn ffordd ataliol, ac nid oedd Debbie angen cymorth gan y gwasanaethau statudol neu wasanaethau gofal wedi'u rheoli. Pe na bai wedi cael cymorth ar y pryd, mae'n debygol y byddai pethau wedi mynd o ddrwg i waeth i Debbie ac wedi cyrraedd pwynt argyfyngus, a allai fod wedi arwain at wasanaethau statudol. Nid oedd Debbie eisiau cymorth gan y Tîm Anabledd Dysgu Cymunedol wedyn gan ei bod hi'n gallu defnyddio'r gwasanaethau hyn yn annibynnol.

Beth oedd yr effaith ar fy nheimpladau i tuag at fy swydd?

Roedd yn waith pleserus iawn. Sylwais ar y newidiadau yn hyder a hunan-barch Debbie dros amser, a oedd yn gadarnhaol iawn a braf i'w weld. Teimlais fy mod i'n gallu gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywyd rhywun sy'n ysgogiad mawr, er mai Debbie wnaeth y gwaith caled mewn gwirionedd – dim ond rhoi gwybodaeth a mymryn o gymorth wnes i.

Tasgau i ymarferwyr

Fel ymarferydd unigol neu dîm, sut mae'r straeon yn eich helpu i fyfrio ar eich ymarfer eich hun, ac a wnaethon nhw'ch ysbrydoli chi i wneud rhywbeth yn wahanol, waeth pa mor fach oedd y newid.

Un o'r ffyrdd gorau o gefnogi dysgu drwy ddefnyddio straeon yw gwneud hynny fel grŵp. Mae'r llyfryn Magic Moments yn cynnwys dwy dasg fyfiriol y gallech eu dilyn. Mae'r un cyntaf yn ymwneud â Sgwrs Ymchwiliol ac yn cynnwys amlinelliad o sut i gynnal sesiwn, gyda chwestiynau posib. Trowch i dudalennau 21-26 a defnyddio'r rhain fel amlinelliad ar gyfer eich sesiwn eich hun

http://www.careforumwales.co.uk/uploads/MagicMoments_PDF.pdf

Gallwch ddefnyddio sawl techneg amrywiol, fel Cymuned Ymchwilgar neu Sgwrs Esboniadol er mwyn ysgogi'ch tîm i feddwl am eu hymateb i'r straeon a beth ddysgon nhw. Mae canllawiau syml ar gyfer gwneud hyn ar gael ar dudalen y wefan, yn galw 'adnoddau defnyddiol'.